

Cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i Clear Mobitel Ltd

Hysbysiad statudol o dan adran 107(6) o'r
Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 28 Mai 2026

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 29 Mehefin 2026

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cefndir	4
3. Rhesymau dros y cynnig	10

Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	15
A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom	18
A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad	19
A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad	20
A5. Hysbysiad statudol	21

1. Trosolwg

1.1 Mae'r cod cyfathrebu electronig yn set o hawliau sydd wedi'u bwriadu i gynorthwyo darparwyr rhwydweithiau cyfathrebu a/neu systemau seilwaith. Gall gweithredwyr y mae Ofcom yn cymhwyso'r Cod iddynt:

adeiladu a chynnal a chadw rhwydweithiau a seilwaith cyfathrebiadau (fel dwythellau, cypyrddau a pholion) ar briffyrdd cyhoeddus heb yr angen i gael trwydded gwaith stryd i ymgymryd â gwaith o'r fath;

adeiladu seilwaith cyfathrebiadau sy'n cael ei ddsbarthu fel 'datblygiadau a ganiateir' o dan ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref (fel rhai mathau o fastau, polion a chabinetau) heb yr angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio; a

- os na ellir dod i gytundeb â pherchennog neu feddiannydd tir preifat, ynghylch defnyddio rhwydweithiau neu seilwaith cyfathrebu ar dir preifat i wneud cais i'r Llys i orfodi cytundeb sy'n rhoi hawl y Cod y mae'r gweithredwr yn ceisio'i wneud neu sy'n darparu i'r hawl Cod i rwymo'r tირfeddiannwr neu'r meddiannydd.

1.2 Rydym yn ystyried ceisiadau am roi pwerau Cod gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig a darparwyr systemau seilwaith (neu'r ddau) gan gyfeirio at y materion a nodir yn adran 107(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Yr hyn rydyn ni'n ei gynnig – yn gryno

Rydym yn bwriadu cymhwyso'r cod cyfathrebu electronig a nodir yn Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i Clear Mobitel Ltd, ei rhif cwmni cofrestredig yw 07067025, at ddibenion darparu rhwydwaith cyfathrebu electronig ganddo a darparu system seilwaith.

Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein cynnig erbyn 29 Mehefin 2026.

Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi pwerau'r Cod i Clear Mobitel Ltd.

2. Cefndir

- 2.1 Mae'r cod cyfathrebiadau electronig (y Cod) wedi'i nodi yn Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Fe'i cynlluniwyd i hwyluso gosod a chynnal a chadw rhwydweithiau cyfathrebu electronig.¹ Mae'n rhoi hawliau i ddarparwyr rhwydweithiau o'r fath ac i ddarparwyr systemau seilwaith i osod a chynnal cyfarpar ar, o dan ac uwchben tir ac mae'n arwain at weithdrefnau cynllunio wedi'u symleiddio'n sylweddol.
- 2.2 Lle mae'r Cod yn cael ei gymhwyso yn achos unrhyw berson, gall fod yn destun i gyfyngiadau ac amodau a nodir mewn deddfwriaeth arall o bryd i'w gilydd.²

Cymhwyso'r Cod

- 2.3 Dim ond yn achos person y mae'n cael ei gymhwyso iddo gan gyfarwyddyd a roddir gan Ofcom (neu, yn achos yr Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw adran o Ogledd Iwerddon, lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r adran honno'n darparu neu'n bwriadu darparu rhwydwaith cyfathrebu electronig) y mae'r Cod yn weithredol.³
- 2.4 Yr unig ddibenion y gellir cymhwyso'r Cod atynt yn achos person trwy gyfarwyddyd yw:
- a) dibenion darparu rhwydwaith cyfathrebu electronig ganddo; neu
 - b) dibenion darparu ganddo system o seilwaith y mae'n ei gwneud ar gael, neu'n bwriadu ei gwneud ar gael, i'w defnyddio gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau ganddynt.⁴
- 2.5 Gall cyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod i berson ddod i rym:
- a) mewn perthynas â'r lleoedd neu'r ardaloedd hynny yn unig a bennir neu a ddisgrifir yn y cyfarwyddyd;
 - b) at ddibenion darparu'r rhwydwaith cyfathrebu electronig hwnnw, neu ran o rwydwaith cyfathrebu electronig, fel y pennir neu ei ddisgrifio felly; neu
 - c) at ddibenion darparu'r system o seilwaith, neu ran o system seilwaith yn unig, fel y pennir neu a ddisgrifir felly.⁵

Y broses ymgeisio ar gyfer cymhwyso'r Cod

- 2.6 Ni chaiff Ofcom roi cyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod yn achos unrhyw berson ac eithrio ar gais a wneir at y diben gan y person hwnnw.⁶

¹ Mae gan "rhwydwaith cyfathrebu electronig" at ddibenion y Cod yr un ystyr ag yn adran 32 o'r Ddeddf.

² Adran 109 o'r Ddeddf – gweler Rheoliadau'r Cod Cyfathrebu Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) 2003 (OS 2003 Rhif 2553), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Cod Cyfathrebu Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) (Diwygio) 2009 (OS 2009 Rhif 584), Rheoliadau Cod Cyfathrebu Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) (Diwygio) 2013 (OS 2013 Rhif 1403) a Rheoliadau Cod Cyfathrebu Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) (Diwygio) 2017 (OS 2017/753).

³ Adran 106(3)(b) o'r Ddeddf.

⁴ Adran 106(4) o'r Ddeddf.

⁵ Adran 106(5) o'r Ddeddf.

⁶ Adran 107(1) o'r Ddeddf.

- 2.7 Rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath yn unol â'r gofynion sydd mewn grym ar y pryd o ran cynnwys cais am gyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod a'r modd y dylid gwneud cais o'r fath.⁷

Terfyn amser ar gyfer gwneud penderfyniad ar geisiadau am y Cod

- 2.8 Mae rheoliad 3(2) o Reoliadau Cyfathrebu Electronig a Thelegraff Di-wifr 2011⁸ yn nodi, ac eithrio mewn achosion o ddiarddel, fod yn rhaid i Ofcom wneud ei benderfyniad o fewn 6 mis i dderbyn y cais wedi'i gwblhau. Mewn geiriau eraill, mae'r terfyn amser hwnnw'n berthnasol o'r eiliad y mae Ofcom yn derbyn cais sy'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion a ddisgrifir uchod.

Proses ymgynghori statudol ar gynnig

- 2.9 Cyn rhoi cyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod i'r ymgeisydd dan sylw, rhaid i Ofcom gyhoeddi hysbysiad o'i gynnig i roi'r cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau am y cynnig hwnnw a wneir i Ofcom o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.⁹
- 2.10 Rhaid i hysbysiad o'r fath gynnwys y canlynol¹⁰:
- a) datganiad o gynnig Ofcom,¹¹
 - b) datganiad o resymau Ofcom dros y cynnig hwnnw;
 - c) datganiad o'r cyfnod y gellir gwneud sylwadau i Ofcom am y cynnig (rhaid i'r cyfnod hwnnw ddod i ben dim llai na 30 diwrnod ar ôl diwrnod cyhoeddi'r hysbysiad¹²).
- 2.11 Rhaid i Ofcom gyhoeddi hysbysiad yn y fath fodd ag y mae Ofcom yn ystyried ei fod yn briodol i ddod â'r hysbysiad i sylw'r bobl y mae'n debygol, ym marn Ofcom, y bydd yn effeithio arnynt.¹³
- 2.12 Mae'r hysbysiad a gyhoeddir yn Atodiad 5 i'r ddogfen hon yn hysbysiad at ddibenion hynny a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y rhesymau a nodir yn Adran 3.

⁷ Adran 107(2) o'r Ddeddf. Am y gofynion cyfredol, gweler yr Hysbysiad o dan adran 107(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, dyddiedig 6 Hydref 2003, yn Atodiad B i'r datganiad o'r enw 'Rhoi'r Cod Cyfathrebu Electronig gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu – Datganiad a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu', a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2003

⁸ OS 2011 Rhif 1210.

⁹ Adran 107(6) o'r Ddeddf.

¹⁰ Adran 107(7) o'r Ddeddf.

¹¹ Yn destun i adrannau 113(7) a 115(5) o'r Ddeddf, rhaid i'r datganiad cynnig Ofcom gynnwys datganiad bod Ofcom yn bwriadu cymhwyso'r cod yn achos y person dan sylw ac yn nodi unrhyw gynigion gan Ofcom i osod telerau o dan adran 106(5): gweler adran 107(8) o'r Ddeddf.

¹² Adran 107(9) o'r Ddeddf.

¹³ Adran 107(10) o'r Ddeddf.

Ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniad (pedwar ffactor)

- 2.13 Wrth ystyried a ddylid cymhwyso'r Cod yn achos unrhyw berson, rhaid i Ofcom ystyried, yn benodol, bob un o'r materion canlynol:¹⁴
- a) budd y cyhoedd o'r rhwydwaith cyfathrebu electronig neu'r system seilwaith y mae'r Cod i'w gymhwyso i'r person hwnnw;
 - b) ymarferoldeb darpariaeth y rhwydwaith neu'r system honno heb gymhwyso'r Cod;
 - c) yr angen i annog rhannu defnydd o offer cyfathrebu electronig;
 - d) a fydd y person y bwriedir cymhwyso'r Cod yn ei achos yn gallu bodloni rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i gymhwyso'r Cod yn achos y person hwnnw ac unrhyw ymddygiad y person hwnnw mewn perthynas â'r materion y mae'r Cod yn ymdrin â nhw.
- 2.14 At ddibenion y broses hon, mae'r pedwar ffactor hynny'n gyfartal â dyletswyddau statudol Ofcom o dan adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf.¹⁵ Lle bo'n briodol, y tu allan i'r ystyriaethau statudol hynny, byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol sydd, yn ein barn ni, yn berthnasol i'r cais penodol.

Dyletswyddau statudol

Dyletswyddau cyffredinol

- 2.15 Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf (sy'n cynnwys rhoi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod), prif ddyletswydd Ofcom fel y'i nodir yn adran 3 o'r Ddeddf yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth.
- 2.16 Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i ni sicrhau nifer o amcanion penodol a rhoi sylw i nifer o faterion a nodir yn adran 3. O ran yr amcanion statudol penodol rhagnodir yn adran 3(2), rydym o'r farn bod yr amcan o sicrhau bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebu electronig ledled y DU yn arbennig o berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.
- 2.17 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n ofynnol i Ofcom hefyd ystyried amrywiaeth o ystyriaethau eraill, sy'n ymddangos yn berthnasol i ni o dan yr amgylchiadau. Yn y cyd-destun hwn, rydym o'r farn bod nifer o ystyriaethau o'r fath yn berthnasol, yn enwedig:
- a) dymunoldeb hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol;
 - b) dymunoldeb annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; ac
 - c) y dymunol o annog argaeledd a defnyddio gwasanaethau trosglwyddo data cyflym ledled y Deyrnas Unedig.
- 2.18 Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, atebol, cymesur, cyson, ac wedi'u targedu at achosion lle mae angen gweithredu yn unig, yn ogystal â budd defnyddwyr o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

¹⁴ Adran 107(4) o'r Ddeddf.

¹⁵ Adran 107(5) o'r Ddeddf.

- 2.19 Mae gan Ofcom fesur eang o ddisgresiwn wrth gydbwysu ei ddyletswyddau a'i amcanion statudol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys unrhyw ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori hon, wrth ddod i'n casgliadau.

Dyletswyddau penodol mewn perthynas â swyddogaethau rheoleiddio

- 2.20 Wrth gyflawni swyddogaethau penodol fel rhoi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod, mae adran 4 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu yn unol â'r chwe gofyniad a nodir yn yr adran honno.
- 2.21 Mewn crynodeb, y chwe gofyniad yw:
- hyrwyddo cystadleuaeth wrth ddarparu rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig, cyfleusterau cysylltiedig â chyflenwi cyfeiriaduron;
 - hyrwyddo buddiannau holl aelodau'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig;
 - ystyried y dymunoldeb i Ofcom gyflawni ei swyddogaethau mewn modd nad yw, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn ffafrio un math neu ddull o ddarparu rhwydweithiau, gwasanaethau neu gyfleusterau cysylltiedig cyfathrebu electronig dros un arall, h.y. bod yn dechnoleg niwtral;
 - er mwyn annog, i'r graddau y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol at rai dibenion rhagnodedig, ddarparu mynediad i'r rhwydwaith a rhyngweithrededd gwasanaethau, sef sicrhau effeithlonrwydd a chystadleuaeth gynaliadwy, buddsoddiad ac arloesedd effeithlon a'r budd mwyaf posibl i gwsmeriaid darparwyr cyfathrebu a phobl sy'n darparu cyfleusterau cysylltiedig;
 - er mwyn annog cydymffurfiaeth â safonau penodol yn ôl yr angen i hwyluso rhyngweithrededd gwasanaethau; hwyluso cysylltedd o'r dechrau i'r diwedd; hwyluso newid darparwr cyfathrebu gan ddefnyddwyr terfynol; hwyluso cadw rhifau ffôn ddefnyddwyr terfynol ar ôl newid darparwr cyfathrebu; a sicrhau rhyddid dewis i gwsmeriaid darparwyr cyfathrebu.
 - i hyrwyddo cysylltedd a mynediad at rwydweithiau capasiti uchel iawn gan aelodau'r cyhoedd a busnesau yn y Deyrnas Unedig.
- 2.22 Rydym o'r farn bod y cyntaf, yr ail, y pedwerydd a'r chweched o'r gofynion hynny yn arbennig o berthnasol i'n cynnig yn yr ymgynghoriad hwn ac nad oes unrhyw wrthdaro yn codi yn hyn o beth â'r amcanion penodol yn adran 3 yr ydym wedi'u nodi uchod fel rhai arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn.

Materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn

- 2.23 Mae rôl Ofcom mewn perthynas â rhoi pwerau'r Cod wedi'i chyfyngu i ystyried ceisiadau gan ddarparwyr unigol rhwydweithiau cyfathrebu electronig a/neu systemau seilwaith, gan ystyried ei ddyletswyddau statudol o dan adrannau 3, 4 a 107(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 fel y nodir uchod.
- 2.24 Felly, nid yw Ofcom yn gallu ystyried sylwadau ynghylch polisi'r Llywodraeth sy'n sail i'r fframwaith statudol sy'n nodi'r Cod, a'r hawliau sydd ar gael i weithredwyr y Cod i hwyluso cyflwyno rhwydweithiau cyfathrebu uwch.
- 2.25 Nid yw Ofcom hefyd yn gallu ystyried sylwadau ynghylch polisi'r Llywodraeth a diogelwch meysydd electromagnetig (EMFs). Nid oes angen pwerau'r Cod ar ddarparwyr i ddefnyddio

offer sy'n allyrru EMFs, ac nid yw'r Cod yn gosod lefelau diogelwch ar gyfer allyriadau o'r fath. Rydym wedi cyhoeddi tudalen gyngor ar ein gwefan, sy'n esbonio rheoleiddio EMFs ac sy'n nodi'r sefydliadau sy'n gyfrifol am sicrhau bod gweithredwyr symudol yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.¹⁶

Asesiad effaith

- 2.26 Mae adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o'r effaith debygol y byddai gweithredu cynnig yn ei chael ar fusnesau neu'r cyhoedd yn gyffredinol, os yw'r effaith yn debygol o fod yn sylweddol, neu pan fydd newid yng ngweithgareddau Ofcom yn fawr.
- 2.27 Yn fwy cyffredinol, mae asesiadau effaith yn rhan o lunio polisiau da ac felly rydym yn disgwyl eu cynnal mewn perthynas â mwyafrif helaeth o'n cynigion. Defnyddiwn asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi yr ydym wedi penderfynu eu gwneud a pham yr ydym yn ystyried bod y penderfyniadau hynny'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion cymwys orau yn y ffordd leiaf ymwithiol. Mae ein canllawiau asesu effaith yn nodi ein dull cyffredinol o ran sut yr ydym yn asesu ac yn cyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.¹⁷
- 2.28 Nodir uchod y dyletswyddau perthnasol mewn perthynas â'r cynnig yr ydym yn ymgynghori arno. Fel y trafodwyd ym mharagraff 2.13, mae'r rhain yn cynnwys y pedwar ffactor y mae'n ofynnol i ni roi sylw penodol iddynt wrth ystyried a ddylid cymhwysu'r Cod yn achos person. Rydym o'r farn bod y rhain yn arbennig o berthnasol i'n hasesiad o effaith y cynnig hwn.
- 2.29 Rydym yn disgwyl i'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddinasyddion a defnyddwyr oherwydd bydd rhoi pwerau Cod yn hwyluso'r broses o ddefnyddio rhwydwaith cyfathrebu electronig a system seilwaith gan yr ymgeisydd fel y disgrifir yn adran 3.
- 2.30 Rydym yn disgwyl i ddefnyddio rhwydweithiau a systemau seilwaith o'r fath wella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael a helpu i ddiwallu anghenion cynyddol pobl a busnesau am gysylltedd. Lle mae darparwyr yn ehangu eu cwmpas rhwydwaith, rydym yn disgwyl i gystadleuaeth danio arloesedd a dewis cwsmeriaid.
- 2.31 Yn adran 3, rydym hefyd wedi crynhoi'r manteision y mae'r ymgeisydd yn eu hystyried a fyddai'n gysylltiedig â'r defnydd arfaethedig o'r rhwydwaith a'r seilwaith.
- 2.32 Er mwyn bod yn gyflawn, nodwn y gallai gwaith stryd sy'n gysylltiedig â'r defnydd arfaethedig o'r rhwydwaith a'r system seilwaith achosi aflonyddwch tymor byr i ddinasyddion. Gallai hyn gynnwys cau strydoedd, cyfyngiadau traffig a sŵn sy'n gysylltiedig â gwaith i osod offer cyfathrebu electronig. Efallai y bydd effaith weledol hefyd os yw'r ymgeisydd yn defnyddio offer fel cypyrddau, polion a llinellau uwchben. Nodwn fod gan weithredwyr y mae'r Cod yn berthnasol iddynt hawliau i ddefnyddio offer cyfathrebu electronig ar briffyrdd cyhoeddus, yn amodol ar rwymedigaethau penodol fel y nodir yn yr amodau a'r cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y Cod, deddfwriaeth gwaith stryd a deddfwriaeth gynllunio. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â chynnal gwaith stryd, y mathau o offer y gellir eu gosod, effaith weledol offer a'r gofynion cynllunio perthnasol.

¹⁶ [Cwestiynau cyffredin am EMF](#)

¹⁷ Ofcom, [Canllawiau Asesu Effaith](#), Gorffennaf 2023.

- 2.33 Wrth ystyried effaith bosibl y cynnig yr ydym yn ymgynghori arno, rydym wedi ystyried yr opsiynau canlynol:
- a) rhoi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i'r Ymgeisydd; neu
 - b) i beidio â rhoi cyfarwyddyd o'r fath.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

- 2.34 Rydym wedi ystyried yn ofalus a fydd ein cynnig yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys yn fras hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu feithrin cysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.¹⁸
- 2.35 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn meddwl yn ehangach na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a nodwyd mewn deddfwriaeth cydraddoldeb ac yn meddwl am effeithiau posibl ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 o'n [canllawiau asesiad effaith](#)).
- 2.36 Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel yr ymddengys i ni eu bod yn berthnasol yn yr amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- pa mor agored i niwed yw plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau yn eu rhoi mewn angen arbennig;
- anghenion pobl ag anableddau, pobl hŷn a phobl ar incwm isel; a
 - buddiannau gwahanol bobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig o fewn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.
- 2.37 Rydym o'r farn y gallai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf 2010 neu Ddeddf 1998) yn wahanol i'r boblogaeth gyffredinol. Fel y nodwyd yn ein hasesiad effaith uchod, bydd ein cynnig yn hwyluso defnydd o rwydwaith cyfathrebu electronig a system seilwaith gan yr ymgeisydd, ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddinasyddion. Gall grwpiau penodol elwa mwy na'r boblogaeth gyffredinol, yn dibynnu ar y lleoliadau y mae'r ymgeisydd yn eu dewis i ddefnyddio ei rwydwaith. Er enghraifft, gall yr ymgeisydd ddefnyddio ei rwydwaith mewn lleoliadau lle mae'r rhai â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cynrychioli'n arbennig neu mewn ardaloedd trefol neu wledig, a allai helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal yn yr ardaloedd hynny.
- 2.38 Yn adran 3, rydym wedi disgrifio'r effeithiau gwahaniaethol yr ydym wedi'u nodi. Fodd bynnag, o ystyried cwmpas cul ein cynnig a bod y lleoliadau lle mae'r ymgeisydd yn y pen draw yn defnyddio ei rwydwaith a'i system seilwaith yn ôl ei ddisgresiwn, nid ydym wedi ceisio cynnal asesiad manwl o'r effeithiau gwahaniaethol cadarnhaol hyn.

¹⁸ Ceir rhagor o fanylion yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

3. Rhesymau dros y cynnig

3.1 Mae'r adran hon yn cynnwys ein rhesymau dros gynnig cymhwyso'r Cod i Clear Mobitel Ltd.

Materion ffeithiol

Yr Ymgeisydd a'r pwerau Cod y gwnaed cais amdanynt

3.2 Ar 21 Mawrth 2026, derbyniwyd cais sy'n bodloni'r gofynion statudol.¹⁹

3.3 Y person sy'n ceisio pwerau'r Cod (yr Ymgeisydd) yw:

- Enw'r cwmni: Clear Mobitel Ltd
- Rhif cwmni cofrestredig: 07067025
- Swyddfa gofrestrdig: Msparc, Parc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen, Cymru, LL60 6AG

3.4 Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud cais i Ofcom am gyfarwyddyd i gymhwyso pwerau'r Cod o dan adran 106(4)(a) a (b) o'r Ddeddf. Sef, at ddibenion darparu rhwydwaith cyfathrebu electronig gan yr Ymgeisydd; ac at ddibenion darparu system seilwaith gan yr Ymgeisydd y mae'n ei darparu, neu'n bwriadu ei darparu i'w defnyddio gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau ganddynt.

Disgrifiad a lleoliad y rhwydwaith neu'r system seilwaith ar gyfer pwerau'r Cod

3.5 Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu darparu rhwydwaith cyfathrebu electronig sy'n cynnwys seilwaith mynediad radio Radio Newydd (NR) 5G, ôl-gludo ffeibr a microdon, a rhwydwaith craidd Annibynnol 5G briodol i'r cwmwl. Mae'r Ymgeisydd wedi nodi y byddai ei rwydwaith arfaethedig yn darparu gwasanaethau band eang Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) 5G i adeiladau preswyl a busnes, cysylltedd cyfanwerthu i Ddarparwyr Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISPs), ac atebion 5G menter.

3.6 Hefyd bwriad yr Ymgeisydd yw darparu system seilwaith y mae'n bwriadu eu darparu i'w defnyddio gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig eraill. Mae'r system hon yn cynnwys strwythurau mast a pholyn, seilwaith dwythellau, cysylltedd ffeibr tywyll, a thai cabinet/offer – a fyddai pob un ohonynt yn cael eu cynnig i weithredwyr eraill ar sail mynediad agored, cyfanwerthu. Mae'r Ymgeisydd wedi nodi bod ei fodel seilwaith cyfanwerthu mynediad agored arfaethedig yn elfen graidd o'i gynllun busnes.

3.7 Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu canolbwyntio ar ddefnyddio ei rwydwaith cyfathrebu electronig arfaethedig a'i system seilwaith arfaethedig yng Nghymru i ddechrau ac archwilio cyfleoedd cysylltedd trawsffiniol ledled y DU yn ddiweddarach.

¹⁹ Hysbysiad o dan Adran 107(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Atodiad B i'r datganiad o'r enw 'Rhoi'r Cod Cyfathrebu Electronig gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu – Datganiad a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu', a gyhoeddwyd ar 10 Hydref 2003.

Dadansoddiad o'r pedwar ffactor

3.8 Fel y nodir ym mharagraff 2.13 uchod, rhaid i Ofcom ystyried pedwar ffactor wrth ystyried a ddylid cymhwyso'r Cod yn achos unrhyw berson.

Y budd i'r cyhoedd o'r rhwydwaith cyfathrebu electronig a'r system seilwaith y mae'r Cod i'w gymhwyso i'r Ymgeisydd

3.9 Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai ei rwydwaith cyfathrebu electronig arfaethedig a'i system seilwaith o fudd i'r cyhoedd gan mai:

- Ei fwriad yw darparu band eang cyflym i 5,000 o adeiladau ym Mlwyddyn 1, gan godi i 25,000 erbyn Blwyddyn 5, mewn ardaloedd sy'n cael eu tan-wasanaethu yng Nghymru a ledled y DU gyda chysylltedd cyfyngedig neu ddim cysylltedd o gwbl.
- Ei fwriad yw cyflwyno darparwr seilwaith cyfanwerthol ychwanegol i'r farchnad ar sail mynediad agored, gan gynyddu'r dewis i ddefnyddwyr a busnesau. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu sicrhau'r budd cyhoeddus mwyaf posibl o'r system seilwaith trwy alluogi darparwyr gwasanaeth lluosog i gyrraedd cymunedau sy'n cael eu tan-wasanaethau, heb ddyblygu adeiladu rhwydwaith ffisegol.
- Ei fwriad yw cefnogi datblygiad economaidd drwy dwf Busnesau Bach a Chanolig (SME), arloesedd amaethyddol, twristiaeth a darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.
- Ei fwriad yw, wrth i'r rhwydwaith a'r seilwaith gael eu defnyddio, creu swyddi yn ei bencadlys yn Ynys Môn.
- Ei fwriad yw helpu i sicrhau diogelwch rhwydwaith trwy adeiladu rhwydwaith 5G modern, diogel gan ddefnyddio dim ond gwerthwyr cymeradwy nad ydynt yn risg uchel.
- Mae'n bwriadu cyflawni defnydd o gylchrediad rhwydwaith cyflymach am gostau cyhoeddus is, trwy ddefnyddio rhwydwaith a seilwaith cost-effeithiol.

3.10 Rydym yn disgwyl i ddefnydd o rwydwaith cyfathrebu electronig newydd a system o seilwaith i wella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael a helpu i ddiwallu anghenion cynyddol pobl a busnesau am gysylltedd. Lle mae darparwyr yn ehangu eu cwrdd rhwydwaith, rydym yn disgwyl i gystadleuaeth danio arloesedd a dewis cwsmeriaid.

3.11 Er mwyn bod yn gyflawn, nodwn y gallai unrhyw waith stryd posibl yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â defnydd o'r rhwydwaith cyfathrebu electronig arfaethedig a'r system seilwaith achosi aflonyddwch tymor byr i ddinasyddion. Gallai hyn gynnwys cau strydoedd, cyfyngiadau traffig a sŵn sy'n gysylltiedig â gwaith i osod cyfarpar cyfathrebu electronig. Efallai y bydd effaith weledol hefyd os yw'r Ymgeisydd yn defnyddio cyfarpar fel cypyrddau, polion a llinellau uwchben. Nodwn fod gan weithredwyr y mae'r Cod yn berthnasol iddynt hawliau i ddefnyddio cyfarpar cyfathrebu electronig mewn priffyrdd cyhoeddus, yn amodol ar rwymedigaethau penodol fel y nodir yn yr amodau a chyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y Cod, deddfwriaeth gwaith stryd a deddfwriaeth gynllunio. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â chynnal gwaith stryd, y mathau o offer y gellir eu gosod, effaith weledol yr offer a'r gofynion cynllunio perthnasol. Rydym o'r farn y byddai gan y system arfaethedig o osod rhwydwaith a seilwaith a gynlluniwyd gan yr Ymgeisydd y potensial i fod o fudd i'r cyhoedd.

Ymarferoldeb darparu'r rhwydwaith a seilwaith heb gymhwysu'r Cod

- 3.12 Mae'r Ymgeisydd wedi datgan na fyddai'n gallu gosod a chynnal ei rwydwaith a'i system seilwaith arfaethedig yn fasnachol heb bwerau'r Cod oherwydd:
- Mae'r Ymgeisydd yn ystyried heb bwerau Cod, ni all drafod telerau â thirfeddianwyr, cael mynediad at seilwaith cyfanwerthu, na bodloni diwydrwydd dyladwy buddsoddwyr. Byddai bwerau Cod yn rhoi mwy o bŵer bargeinio iddo gyda thirfeddianwyr a byddent yn ei alluogi i wneud cais i'r llys i orfodi cytundeb rhag ofn na all sicrhau telerau boddhaol ar gyfer mynediad i dir preifat i osod ei offer.
 - Bydd bwerau Cod yn caniatáu i'r Ymgeisydd ddefnyddio ffeibr ar hyd priffyrdd cyhoeddus i gysylltu gorsafoedd sylfaen, gan na fyddai ganddo'r hawl i ddefnyddio cyfarpar mewn strydoedd heb bwerau Cod ac felly byddai angen iddo wneud cais am drwyddedau gwaith stryd, yn unol ag adran 50 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. O ystyried bod trwyddedau o'r fath yn grant dewisol, mae'r Ymgeisydd o'r farn na fyddai hyn yn darparu'r sicrwydd, y cwmpas na'r parhad sydd eu hangen ar gyfer gosod y rhwydwaith arfaethedig.
 - Mae'r Ymgeisydd yn ystyried bod y gweithdrefnau cynllunio symlach ar gyfer datblygu a ganiateir sydd ar gael i weithredwyr Cod yn hanfodol ar gyfer defnyddio seilwaith 5G ar raddfa fawr. Mae'n nodi, yn absenoldeb bwerau Cod, na fyddai'n elwa o'r gweithdrefnau cynllunio symlach ar gyfer datblygu a ganiateir ac felly byddai angen iddo wneud cais am ganiatâd cynllunio i ddefnyddio rhai mathau o seilwaith. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai hyn yn ychwanegu cost, oedi ac ansicrwydd sylweddol at y rhaglen ddefnyddio.
 - Mae'r Ymgeisydd yn datgan bod y rhwydwaith 5G FWA yn dibynnu ar drosglwyddo llinell olwg neu linell olwg agos. Felly, mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai'r hawl Cod i reoli llystyfiant sy'n ymyrryd ag offer yn hanfodol yn nhirwedd goediog Gogledd Cymru.
- 3.13 Rydym o'r farn na fyddai darparu'r rhwydwaith a gynlluniwyd gan yr Ymgeisydd yn ymarferol heb gymhwysu'r Cod.

Yr angen i annog rhannu defnydd o offer cyfathrebu electronig

- 3.14 Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau ei fod yn ceisio rhannu defnydd ei offer cyfathrebu electronig gyda gweithredwyr eraill. Yn benodol, mae'r Ymgeisydd yn bwriadu:
- Gwneud seilwaith mastiau a pholion ar gael ar gyfer cydleoli gan weithredwyr cyfathrebu electronig eraill, lle bo'n dechnegol ymarferol ac yn amodol ar delerau masnachol rhesymol a chynhwysedd strwythurol.
 - Gwneud defnydd o wasanaeth Mynediad i Seilwaith Ffisegol (PIA) Openreach.
 - Cynnig gwasanaethau mynediad agored cyfanwerth dros ei rwydwaith 5G FWA, gan alluogi darparwyr cyfathrebu eraill i ddarparu gwasanaethau band eang i ddefnyddwyr terfynol heb ddefnyddio eu seilwaith radio eu hunain.
 - Ystyried ceisiadau am fynediad at ddwythell, ffeibr tywyll a seilwaith goddefol arall a ddefnyddir fel rhan o'r adeiladu'r rhwydwaith, ar delerau teg a rhesymol.
 - Ymgysylltu'n adeiladol ag unrhyw weithredwr Cod sy'n ceisio rhannu offer.

A fydd yr Ymgeisydd yn gallu bodloni rhwymedigaethau o ganlyniad i (i) gymhwyso'r Cod; a (ii) unrhyw ymddygiad mewn perthynas â chymhwyso'r Cod

- 3.15 Mae'r Ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth i ni, ynghyd â'i gais, sy'n cadarnhau ei fod yn deall ei rhwymedigaethau i ddarparu arian ar gyfer rhwymedigaethau o dan Reoliad 16²⁰, a chadarnhad gan gyfarwyddwr y cwmni y bydd yn sicrhau bod digon o arian ar gyfer y rhwymedigaethau hyn (a bydd yn darparu tystysgrif i Ofcom i'r perwyl hwn) os, a phan fydd hyn yn angenrheidiol.
- 3.16 Rydym o'r farn, yn seiliedig ar y wybodaeth hon, y byddai'r Ymgeisydd yn gallu bodloni ei rhwymedigaethau.

Aseiad cyffredinol

- 3.17 Yn ogystal â'n hystyriaeth o'r pedwar ffactor a drafodwyd uchod ym mharagraff 2.13, rydym o'r farn y byddai ein cynnig yn sicrhau neu'n hyrwyddo cyflawni ein dyletswyddau statudol o dan adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf.
- 3.18 Yn benodol, ystyriwn y byddai ein cynnig yn annog buddsoddiad ac arloesedd trwy hwyluso darparu rhwydwaith cyfathrebu electronig a system seilwaith gan yr Ymgeisydd. Byddai darparu rhwydwaith a system seilwaith o'r fath yn hyrwyddo mynediad at rwydweithiau capasiti uchel iawn ac yn annog argaeledd ystod eang o wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys gwasanaethau trosglwyddo data cyflym. Yn ein barn ni, byddai hyn hefyd yn helpu i gefnogi datblygiad, twf ac argaeledd gwasanaethau cyfathrebu modern er budd y cyhoedd yn y dyfodol.
- 3.19 Rydym o'r farn y bydd y cynnig hwn yn gwella ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael ac yn helpu i ddiwallu anghenion cysylltedd cynyddol pobl a busnesau.
- 3.20 Rydym o'r farn y gallai system seilwaith yr Ymgeisydd wella cystadleuaeth wrth ddarparu seilwaith o'r fath gan fod yr ymgeisydd yn cynnig gwasanaethau seilwaith cyfanwerthu mewn cystadleuaeth â darparwyr eraill o'r fath wasanaethau.
- 3.21 Rydym hefyd o'r farn y gallai rhwydwaith arfaethedig yr Ymgeisydd hefyd wella cystadleuaeth a dewis cwsmeriaid gan fod yr Ymgeisydd yn cynnig gwasanaethau manwerthu mewn cystadleuaeth â darparwyr telathrebu presennol a darparu gwasanaethau cyfanwerthu i ddarparwyr telathrebu eraill.
- 3.22 Mae effaith gweithredu'r cynnig yn debygol o fod yn isel. Mae unrhyw gostau i'r rhai yr effeithir arnynt gan ddefnydd yr Ymgeisydd o bwerau'r Cod yn debygol o gael eu gorbwyso gan y manteision. Ar y llaw arall, mae'r effaith niweidiol ar yr Ymgeisydd o wrthod rhoi pwerau o'r fath (gan gynnwys ymarferoldeb ei gyflwyno rhwydwaith) yn debygol o fod yn sylweddol.
- 3.23 Rydym hefyd o'r farn nad yw effaith ein cynnig yn debygol o fod yn anfantais i unrhyw grŵp gwarchoddedig o fewn cymdeithas.

²⁰ Rheoliadau Cod Cyfathrebu Electronig (Amodau a Chyfyngiadau) 2003 (OS 2003 Rhif 2553) (fel y'u diwygiwyd).

Y Cynnig

- 3.24 Ar ôl ystyried cais yr Ymgeisydd am bwerau Cod, rydym yn cynnig y dylai'r Cod gael effaith yn ei achos ar gyfer darparu rhwydwaith cyfathrebu electronig gan yr Ymgeisydd, ac ar gyfer darparu system o seilwaith y mae'r Ymgeisydd yn ei darparu, neu'n bwriadu ei darparu, i'w defnyddio gan ddarparwyr cyfathrebu electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau yn y Deyrnas Unedig ganddynt.
- 3.25 Rydym o'r farn bod ein cynnig yn briodol o ystyried yr ystyriaethau a nodir yn adran 107(4) o'r Ddeddf. Rydym o'r farn y byddai cyflawni ein dyletswyddau statudol yn adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf yn cael ei sicrhau a'i hyrwyddo mewn perthynas â'r cynnig hwn.
- 3.26 Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a dderbyniwn erbyn y dyddiad cau cyn gwneud ein penderfyniad ynghylch a ddylem roi cyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod i'r Ymgeisydd.

Crynodeb lefel uchel syml yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut i ymateb

- A1.1 Hoffai Ofcom i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon, erbyn 5pm ar 29 Mehefin 2026.
- A1.2 Gallwch lawrlwytho ffurflen ymateb o [yma](#). Gallwch ddychwelyd hwn dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad a ddarperir yn y ffurflen ymateb.
- A1.3 Os yw'ch ymateb yn ffeil fawr, neu'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall ategol arall, gofynnwn i chi ei anfon dros e-bost i ECCcodepowers@ofcom.org.uk, fel atodiad ar ffurf Microsoft Word, ynghyd â'r daflen gyflwyno. Mae'r cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn unig ac ni fydd yn ddilys ar ôl 29 Mehefin 2026.
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, wedi'i farcio â theitl yr ymgynghoriad:
- Tîm Cod Cyfathrebu Electronig
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain, SE1 9HA
- A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo iaith Arwyddion Prydain (BSL). I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddo Prydain:
- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
 - gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall) ac anfon y ddolen atom ni.
- A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)
- A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.
- A1.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A1.9 Byddai'n ddefnyddiol pe bai eich ymateb yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai'n bosibl i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu byddai effaith cynigion Ofcom.
- A1.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sy'n codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i i ECCcodepowers@ofcom.org.uk neu ffoniwch 020 7981 3000.

Cyfrinachedd

- A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.
- A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhwch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.
- A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

Y camau nesaf

- A1.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad cyn y dyddiad cau statudol ar 21 Medi 2026.
- A1.17 Gallwch [gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post](#) yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.
- A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth

Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA

E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A2.2 Byddwn yn dweud yn glir gyda phwy rydym yn ymgynghori, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd
- A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
- A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos, gan ddibynnu ar effaith bosibl ein cynigion
- A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom): Tîm ECC

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei ystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim byd
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd
- Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw Nac ydw

Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost. Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi caled)

A4. Cwestiynau ymgynghori

Cwestiwn: Oes gennych unrhyw sylwadau ar ein cynnig i gymhwyso pwerau'r Cod i'r Ymgeisydd?

A5. Hysbysiad statudol

Hysbysiad o dan adran 107(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Cynnig i roi cyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r cod cyfathrebu electronig

Cynnig yn yr Hysbysiad hwn

1. Mae Ofcom drwy hyn yn cynnig, yn unol ag adran 107(6) o'r Ddeddf, roi cyfarwyddyd o dan adran 106(3) o'r Ddeddf sy'n cymhwyso'r Cod i'r Ymgeisydd.
2. Mae'r cyfarwyddyd arfaethedig i gymhwyso'r Cod i'r Ymgeisydd ar y telerau arfaethedig wedi'i nodi yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.
3. Mae rhesymau Ofcom dros roi'r cyfarwyddyd arfaethedig wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig.

Dyletswyddau Ofcom

4. Wrth wneud y cynnig hwn, mae Ofcom wedi ystyried, yn benodol, bob un o'r materion a nodir yn adran 107(4) o'r Ddeddf. Ar ben hynny, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol yn adran 3 o'r Ddeddf a'r chwe gofyniad yn adran 4 o'r Ddeddf.

Gwneud sylwadau

5. Gellir gwneud sylwadau ar y cynnig hwn drwy e-bost at ECCcodepowers@ofcom.org.uk, erbyn 5pm ar 29 Mehefin 2026 fan bellaf.

Dehongliad

6. Yn yr Hysbysiad hwn—
 - (a) mae "**Deddf**" yn golygu Deddf Cyfathrebiadau 2003;
 - (b) mae "**Ymgeisydd**" yn golygu Clear Mobitel Ltd, y mae ei rif cwmni cofrestredig 07067025;
 - (c) mae "**Cod**" yn golygu'r cod cyfathrebu electronig a nodir yn Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003; a
 - (d) "**Ofcom**" yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau.
7. At ddiben dehongli'r Hysbysiad hwn—
 - (a) rhaid anwybyddu penawdau a theitlau; a
 - (b) bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys fel pe bai'r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.

8. Mae'r Atodlen ynghlwm yn rhan o'r Hysbysiad hwn.



Llofnodwyd

Ben Harries

Cyfarwyddwr Polisi, Seilwaith a Chysylltedd

Person sydd wedi'i awdurdodi'n briodol yn unol â pharagraff 18 o'r Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

28 Mai 2026

ATODLEN

Cyfarwyddyd [Arfaethedig] o dan adran 106(3) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn cymhwyso'r cod cyfathrebu electronig

Cefndir

1. Mae Clear Mobitel Ltd, rif cwmni cofrestredig 07067025 wedi gwneud cais i Ofcom am gyfarwyddyd sy'n cymhwyso'r Cod iddo.
2. Y dyddiad y derbyniodd Ofcom gais wedi'i gwblhau sy'n bodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â chynnwys cais am gyfarwyddyd yn cymhwyso'r Cod a'r modd y dylid gwneud cais o'r fath oedd 21 Mawrth 2026.
3. Yn rhinwedd rheoliad 3 o Reoliadau Cyfathrebu Electronig a Thelegraffiaeth Di-wifr 2011 (SI 2011 Rhif 1210), ac eithrio mewn achosion o ddiarddel, rhaid i Ofcom wneud ei benderfyniad o fewn 6 mis ar ôl derbyn y cais wedi'i gwblhau.
4. Cyn rhoi penderfyniad o dan adran 106(3) o'r Ddeddf i gymhwyso'r Cod i Clear Mobitel Ltd, rhaid i Ofcom gyhoeddi hysbysiad o'i gynnig i roi'r cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau am y cynnig hwnnw a wneir i Ofcom o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.
5. Ar 28 Mai 2026, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn unol ag adran 107(6) o'r Ddeddf o'i gynnig i roi cyfarwyddyd i gymhwyso'r Cod i Clear Mobitel Ltd. Gwahoddodd yr hysbysiad hwnnw sylwadau i Ofcom erbyn 5pm ar 29 Mehefin 2026 fan bellaf.
6. *[Mae Ofcom wedi ystyried pob sylw am y cynnig a wnaed iddo/Ni dderbyniodd Ofcom unrhyw sylwadau am y cynnig]*. Am y rhesymau a nodir yn y datganiad esboniadol sy'n cyd-fynd ag ymgynghoriad Ofcom, mae Ofcom wedi ystyried, yn benodol, bob un o'r materion a nodir yn adran 107(4) o'r Ddeddf. Ar ben hynny, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol yn adran 3 o'r Ddeddf a'r chwe gofyniad yn adran 4 o'r Ddeddf.

Penderfyniad

7. Mae Ofcom drwy hyn yn cyfarwyddo, yn unol ag adran 106 o'r Ddeddf, fel a ganlyn—
 - (a) bydd y Cod yn gymwys i Clear Mobitel Ltd (rif cwmni cofrestredig 07067025) at ddibenion darparu ganddo:
 - i. rhwydwaith cyfathrebu electronig; a
 - ii. system seilwaith y mae'n ei gwneud ar gael, neu'n bwriadu ei gwneud ar gael, i'w defnyddio gan ddarparwyr rhwydweithiau cyfathrebu electronig at ddibenion darparu eu rhwydweithiau ganddynt; a
 - (b) y bydd cymhwyso'r Cod yn cael effaith ledled y Deyrnas Unedig.
8. Bydd y Cyfarwyddyd hwn yn dod i rym ar y diwrnod y caiff ei gyhoeddi.

Dehongli

9. Yn y Cyfeiriad hwn—
 - (a) ystyr "**Deddf**" yw Deddf Cyfathrebiadau 2003;
 - (b) ystyr "**Cod**" yw'r cod cyfathrebu electronig a nodir yn Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;
 - (c) ystyr "**Ofcom**" yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau.
10. At ddibenion dehongli'r Cyfarwyddyd hwn—

(a) rhaid anwybyddu penawdau a theitlau;

(b) bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys fel pe bai'r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.

Llofnodwyd

Ben Harries

Cyfarwyddwr Polisi, Seilwaith a Chysylltedd

Person sydd wedi'i awdurdodi'n briodol yn unol â pharagraff 18 o'r Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

[dyddiad]